# CYFARFOD AR Y CYD O'R PWYLLGORAU CRAFFU ADDYSG A PHLANT, DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD, POLISI AC ADNODDAU, CYMUNEDAU A GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD

## 15FED CHWEFROR 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd D.M. Cundy (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| S.M. Allen | D.J.R. Bartlett | C.A. Campbell | J.M. Charles |
| A.P. Cooper | A. Davies | D.B. Davies | G. Davies |
| I.W. Davies | J.A. Davies | S.L. Davies | W.R.A. Davies |
| T. Devichand | J.S. Edmunds | P.M. Edwards | W.J.W. Evans |
| W. G. Hopkins | J.K. Howell | I.J. Jackson | A. James |
| J.D. James | H.I. Jones | A. Lenny | M.J.A. Lewis |
| K. Madge | S. Matthews | A.G. Morgan | D. Price |
| D.W.H. Richards | B.A.L. Roberts | E.G. Thomas | R. Thomas |
| S.E. Thomas | D. Tomos | D.E. Williams | J.E. Williams |
| J.S. Williams | | | |

**Hefyd yn bresennol:**
Mrs V. Kenny – Cynrychiolydd yr Eglwys Gatholig Rufeinig (Pwyllgor Craffu Addysg a Phlant)
Mrs A. Pickles – Rhiant-lywodraethwr (Ardal Caerfyrddin) (Pwyllgor Craffu Addysg a Phlant)

**Roedd yr isod yn bresennol hefyd:**

Y Cynghorydd D.M. Jenkins, Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau (Dirprwy Arweinydd)
Y Cynghorydd P.A. Palmer, Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Gymunedau (Dirprwy Arweinydd)
Y Cynghorydd L.D. Evans, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Tai
Y Cynghorydd J. Tremlett, Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd

**Roedd y Swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**

Mrs. R. Mullen – Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
Mrs. W. Walters – Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi)
Mr. I. Jones – Pennaeth Hamdden
Mr. S. Pilliner – Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd
Mr. A. Morgan – Pennaeth Effeithiolrwydd Ysgolion

Mr. A. Rees – Pennaeth Rhaglenni Dysgwyr
Mr. R. James – Swyddog Cynllunio Perfformiad a Busnes
Mr. L. James – Rheolwr y Gwasanaethau Tai
Ms. S. Burford – Rheolwr Prosiect
Ms. A. Leonard – Swyddog Perfformiad a Chynllunio
Ms. H. Morgan – Rheolwr Datblygu Economaidd
Ms. M. Rogers – Swyddog Mesur Perfformiad a Monitro
Ms. N. Thomas – Rheolwr Gwasanaeth, y Gwasanaethau Plant [yn cynrychioli S. Smith]
Ms. J. Wilkinson – Rheolwr Ardal Leol [yn cynrychioli R. Dawson]
Mrs. E. Hope – Cydlynydd Perfformiad Adrannol
Mrs. J. Owen – Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin – 2:00 - 3:40yp**

## 1. PENODI CADEIRYDD AR GYFER Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD** penodi'r Cynghorydd D.M. Cundy yn Gadeirydd ar y cyfarfod.

## 2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr J.P Jenkins, S. Caiach, T. Evans, A.W. Jones, A. Speake, G.B. Thomas, D.J.R Llewellyn, E. Morgan, H.B. Shephardson a Mrs J. Voyle Williams.

## 3. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

| Y Cynghorydd | Cofnod Eitem(au) | Y Math o fuddiant |
|---|---|---|
| Mrs A. Pickles | 6. Cyngor Sir Caerfyrddin – Amcanion Llesiant 2017/18 | Mae'n Gyfarwyddwr ar Gwmni Buddiant Cymunedol sy'n darparu cyrsiau Therapi Cwnsela. Mae'r Cwmni wedi cyflwyno tendr i'r Cyngor yn ddiweddar |

## 4. DATGAN CHWIPIAID PLAID SYDD WEDI EU GWAHARDD

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau ynghylch chwip waharddedig.

## 5. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw gwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 6. CYNGOR SIR GAERFYRDDIN - AMCANION LLESIANT 2017/18

*[NODYN: Roedd Mrs A. Pickles wedi datgan buddiant personol yn yr eitem hon yn gynharach.]*

Ystyriodd y Cyd-bwyllgor adroddiad ar Amcanion Llesiant Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer 2017/18. Nododd y Cyd Bwyllgor ei bod yn ofynnol, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, i'r Cyngor osod Blaenoriaethau o ran ei Amcanion Gwella Allweddol bob blwyddyn a bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus:-

- Osod a chyhoeddi Amcanion Llesiant
- Cymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny
- Cyhoeddi datganiad am Amcanion Llesiant
- Cyhoeddi adroddiad cynnydd blynyddol
- Cyhoeddi ein hymateb i argymhelliad a wnaed gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol dros Gymru

Tynnodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi) sylw'r Cyd-bwyllgor at y ffaith y byddai Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ystyried a gwella llesiant Cymru, drwy ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol wrth wneud penderfyniadau.

Hysbysodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi) y Cyd-bwyllgor y byddai'r Blaenoriaethau o ran Amcanion Gwella Allweddol a'r Amcanion Llesiant yn cael eu hintegreiddio ar gyfer 2017/18.

Gwyliodd y Cyd-bwyllgor animeiddiad byr, a oedd yn egluro'r effaith gadarnhaol a gâi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gydol oes merch ifanc. Yn dilyn yr animeiddiad, rhoddodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi) gyflwyniad yn egluro beth oedd yn ofynnol gan y Cyngor er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf a sut y câi'r amcanion llesiant eu datblygu.

Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi) fod pob un o Amcanion Llesiant 2017/18 y Cyngor wedi'u datblygu i gydymffurfio â'r Ddeddf, sy'n dweud bod rhaid i gyrff cyhoeddus sicrhau datblygu cynaliadwy, gan wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae hyn yn cynnwys mabwysiadu'r 5 ffordd newydd o weithio, i ddangos bod yr egwyddor o ddatblygu cynaliadwy wedi cael ei rhoi ar waith. Eglurwyd wrth y Cyd-bwyllgor y byddai'r 5 ffordd newydd o weithio yn annog cydweithio, osgoi dyblygu ymdrechion rhwng cyrff cyhoeddus a mynd i'r afael â rhai sialensiau tymor hir. Hefyd, er mwyn sicrhau bod y cyrff cyhoeddus hynny a restrir yn y Ddeddf yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, roedd amcanion llesiant y Cyngor yn cael eu cysylltu â'r 7 nod llesiant cenedlaethol a geir yn y Ddeddf.

Eglurodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi) fod gofyn i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad blynyddol yn dangos y cynnwys y mae wedi'i wneud o ran cyflawni'i amcanion.

Dywedodd y y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi) wrth y Cyd-bwyllgor fod canllawiau ar y Ddeddf wedi cael eu llunio a'u bod ar gael i'r Aelodau i fynd â nhw adref gyda nhw.

O ran yr ymgynghori ynghylch yr amcanion, hysbysodd y y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi) y Cyd-bwyllgor fod yr ymgynghoriad yn rhan o Asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin, ynghyd â'r Seminar Aelodau a gynhaliwyd ym mis Hydref 2016. Daeth dros 2500 o ymatebion i law, i lywio amcanion llesiant y Cyngor. Achubwyd ar y cyfle hefyd i ymgynghori ynghylch y set ddrafft o amcanion fel rhan o ymgynghoriad y gyllideb ac ymatebodd bron i 600, gyda lefelau uchel o gytuno â phob amcan – cyfartaledd o 80%+.

Hefyd, rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Tai gyflwyniad i'r Cyd-bwyllgor a ddangosai'r cyswllt agos rhwng gwaith Safon Tai Sir Gaerfyrddin a'r Ddeddf.

Nododd y Cyd Bwyllgor fod dros £230M wedi'i fuddsoddi yn nhai'r Cyngor ac y cyrhaeddwyd Safon Tai Sir Gaerfyrddin wrth gynnal a chadw 9,000 o gartrefi tenantiaid. Roedd y Safon Tai yn golygu bod modd darparu tai mwy fforddiadwy sy'n effeithlon o ran ynni. Gwneir hynny drwy helpu tenantiaid a thrigolion i fynd i'r afael â thlodi tanwydd, effeithiau'r newidiadau yn y system Les, a gweithio gyda phartneriaid fel Shelter Cymru ac Undebau Credyd ar faterion ariannol.

Eglurodd y Rheolwr Gwasanaethau Tai fod cysylltiad agos rhwng y Safon Tai a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a bod llawer o waith yn parhau, yn cynnwys cynllun busnes tymor hir (30 mlynedd) sy'n sail i'r gwaith sydd wedi'i sefydlu, rhaglenni gwaith a phrosiect traws adrannol. Roedd prif ddeilliannau'r buddion ehangach i Sir Gaerfyrddin a rôl tenantiaid yn cyd-fynd yn dda â'r 5 ffordd newydd o weithio.

Hefyd, nododd y Cyd-bwyllgor fod deilliannau Safon Tai Sir Gaerfyrddin yn cydymffurfio â'r 7 nod datblygu cynaliadwy, drwy osod safonau tai uwch, gwella'r gadwyn gyflenwi drwy sbarduno'r economi, sicrhau cadernid drwy ddatblygu cynllun busnes 30 mlynedd, lleihau tlodi tanwydd, darparu cartrefi fforddiadwy a datblygu cymunedau mwy cydlynol drwy gefnogi gwahanol fathau o dai.

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Tai fod Astudiaeth o'r Effaith ar Iechyd wedi'i chynnal a oedd yn dangos, er enghraifft, fod 87% o'r tenantiaid yn teimlo erbyn hyn fod eu cartref yn addas i'w hanghenion (wedi cynyddu o 73% yn 2009) a bod 59% o denantiaid yn ei chael yn hawdd iawn/weddol hawdd talu costau byw yn eu cartref erbyn hyn (wedi codi o 34% yn 2009). Roedd hyn yn dangos bod gwelliannau i fywydau pobl wedi digwydd, gan roi dyfodol mwy cynaliadwy.

Ac edrych i'r dyfodol, dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Tai y byddid yn ystyried tai gwledig cost isel, cydweithredol, sy'n gweithio tuag at Gymru fwy cynaliadwy ond ar yr un pryd yn gwella llesiant y rhai sy'n byw yng Nghymru.

Codwyd y canlynol wrth ystyried yr adroddiad:

Cyfeiriwyd at Amcan 1. Dywedwyd nad oedd unrhyw gyfeiriad at addysg plant ag anghenion arbennig. Dywedwyd bod arian ar gyfer y maes hwn yn y dyfodol yn dyngedfennol ac y dylai gael ei gynnwys yn yr amcan. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Plant ei bod yn bwysig fod pob plentyn yn cael y cychwyn gorau mewn bywyd a chytunodd nad oedd cyfeiriad penodol at blant ag anghenion arbennig. Ychwanegodd y Pennaeth Rhaglenni Dysgwyr fod hwn yn faes a oedd yn cael ei ystyried yn ofalus ac y dylid cynnwys cyfeiriad yn yr amcan.

Cyfeiriwyd at yr adroddiad cyfan, gan ddweud bod yr amcanion llesiant yn rhoi'r argraff o fod yn arwynebol, heb unrhyw dargedau mesuradwy. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi) fod yr amcanion ar y lefel hon wedi'u seilio ar fusnes adrannol. Roedd cynlluniau gweithredu manwl yn cael eu paratoi ar gyfer pob amcan. Câi'r cynnydd ei fonitro'n chwarterol a châi adroddiad ei gyflwyno i'r pwyllgor craffu perthnasol fel rhan o'r adroddiadau rheoli perfformiad arferol.

Mewn perthynas ag Amcan Llesiant 1, gofynnwyd sut roedd y cyngor yn bwriadu ystyried anghenion seicolegol plant yn y dyfodol. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Plant fod yr amcanion wedi cael eu datblygu, ond ei bod yn rhy gynnar i flaenoriaethu beth sy'n bwysig i'r boblogaeth ar hyn o bryd. Fodd bynnag, ychwanegodd y Pennaeth Effeithiolrwydd Ysgolion fod 2 seicolegydd ychwanegol wedi cael eu penodi ac y câi rhagor o fanylion eu cynnwys yn y cynllun busnes adrannol.

Codwyd pryder ynglŷn ag amseriad yr adroddiad mewn perthynas â'r gyllideb. Atgoffodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi) yr aelodau i'r cynlluniau busnes a'r cyllidebau adrannol gael eu hystyried yn ddiweddar yn yr un Pwyllgorau Craffu. Fodd bynnag, ar ôl cytuno'n derfynol ar y gyllideb, byddai cynlluniau gweithredu yn cynnwys gwybodaeth ar sut y câi'r amcanion eu hariannu.

Er bod rhai o'r Amcanion Llesiant yn rhai hirdymor eu natur, dywedwyd ei bod yn bwysig i'r Pwyllgor ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau wrth edrych i'r dyfodol, er y cydnabuwyd hefyd na fyddai hynny'n dasg hawdd. Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi), er bod yna gynigion i sicrhau mwy o gydweithredu, megis y Papur Gwyn newydd ar 'Ddiwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac adnewyddiad', fod yr amcanon yn cydgysylltu'n agos â llawer o adrannau eraill. Ychwanegodd y Pennaeth Rhaglenni Dysgwyr fod y Cyngor fwyfwy yn cydweithio'n agosach ar sail amlasiantaethol.

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â Chynghorau Tref a Chymuned, dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi) mai dim ond Cynghorau Tref sydd â gwariant o fwy na £200k sy'n gorfod cydymffurfio â'r Ddeddf. Ond roedd disgwyl i bob Cyngor Cymuned gymryd camau rhesymol i gefnogi'r Cynllun Llesiant. Rhoddodd sicrwydd fod y Cynghorau Tref eisoes yn gweithio'n agos gyda'r Cyngor Sir. Fodd bynnag, anogwyd Cynghorau Tref i gysylltu â'r Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi) pe bai ganddynt unrhyw gwestiynau.

O ran Amcan 5, cyfeiriwyd at y 58% o'r 29,086 o gartrefi yn byw mewn tlodi ar draws Sir Gaerfyrddin sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig. Gan nad yw gwasanaeth Dechrau'n Deg yn gweithredu mewn ardaloedd gwledig a bod cynllun Cymunedau yn Gyntaf i gael ei ddirwyn i ben yn fuan, codwyd pryder ynglŷn â sut yr oedd y Cyngor yn bwriadu gwella ar dlodi yn yr ardaloedd hyn. Hysbysodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi) y Cyd-bwyllgor, yn dilyn datganiad gan Carl Sargeant AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, ynglŷn â dirwyn cynllun Cymunedau yn Gyntaf i ben, fod gan y Cyngor flwyddyn i ganfod ateb amgen. Roedd y Gweinidog wedi cyhoeddi hefyd y byddai'n lansio cronfa newydd a fyddai'n canolbwyntio ar greu swyddi a helpu pobl yn ôl i waith. Rhagwelwyd y byddai hyn yn weithredol erbyn mis Ebrill 2018. Byddai'n rhaid gwneud ceisiadau i Lywodraeth Cymru.

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn ag Amcan Llesiant 4, eglurodd y Pennaeth Rhaglenni Dysgwyr mai nod prosiectau Cynnydd a Cam Nesa o dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop oedd annog pobl i aros mewn addysg neu fynd ymlaen i gyflogaeth werth chweil. Byddai gadael yr Undeb Ewropeaidd yn golygu y deuai'r arian ar gyfer y prosiectau i ben, ond roedd strategaethau amgen yn cael eu hystyried ar y pryd i alluogi'r prosiectau hyn i barhau. Hefyd, cytunwyd y dylid egluro o fewn geiriad yr amcan a oes sicrwydd o arian ar gyfer prosiectau Cynnydd a Cam Nesa sy'n dod o dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

Mewn ymateb i ymholiad pellach yn ymwneud ag Amcan Llesiant 4, dywedodd y Pennaeth Rhaglenni Dysgu fod gwaith cyson yn mynd rhagddo i sicrhau bod pobl Sir Gaerfyrddin yn cael addysg dda a bod y sgiliau iawn ganddynt i roi pasbort iddynt i gyflogadwyedd a dyfodol llwyddiannus. Er mwyn gweithio tuag at hyn, roedd bwriadau clir i gysylltu cyrsiau â gofynion yr economi leol, ranbarthol a rhyngwladol ac i weithio'n fwy effeithlon drwy gydweithio â chydweithwyr ac adrannau eraill.

Cyfeiriwyd at Amcan 6. Awgrymwyd y dylai'r geiriad yn y paragraff o dan 'What do we need to do?' gael ei newid i gynnwys y gair 'current'. Ar ôl ei newid dylai'r paragraff ddarllen fel hyn: "Because future trends show a shift in the composition of the workforce over the next few years, giving us an opportunity to be 'ahead of the game' by increasing the economic opportunities and prosperity of the county by upskilling our current and future potential workforce." Cytunwyd i wneud hynny gan y byddai'n adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor nad yw byth yn rhy hwyr i ddysgu.

Cyfeiriwyd at Amcan Llesiant 8. Awgrymwyd y dylid gwneud y pwynt bwled cyntaf o dan 'Why this should concern us?'yn gliriach er mwyn gallu gwahaniaethu rhwng 'disgwyliad oes' a disgwyliad oes 'iach'. Nodwyd hyn.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â'r defnydd o'r Gymraeg ymysg staff yn y Cyngor, hysbysodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfwyio a Pholisi) y Cyd-bwyllgor fod gan yr Awdurdod Ddyletswydd i gydymffurfio â'r Safonau Iaith newydd i'r Gymraeg, a chynigiodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol dderbyn unrhyw faterion sy'n peri pryder oddi wrth yr Aelod.

Cyfeiriad at Amcan Llesiant 13. Nodwyd nad oedd yr amcan yn cyfeirio o gwbl at lifogydd. Dywedwyd y dylid cynnwys llifogydd oherwydd roedd teimlad fod codi tai ar orlifdiroedd yn broblem yn Sir Gaerfyrddin. Dywedodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd fod llifogydd wedi'u cynnwys yn Amcan Llesiant 12, sy'n dweud 'We will protect our environment and properties through delivering our Flood & Waste Management Plan…'

Oherwydd dyheadau uchelgeisiol y cynllun, awgrymwyd y dylid ei fonitro'n rheolaidd. Eglurodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi) y byddai cynllun gweithredu manwl yn gefn i bob Amcan Llesiant er mwyn cyflawni ein dyletswydd o dan y Ddeddf i 'gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanon hynny'. Caiff cynnydd ei fonitro'n chwarterol a chyflwynir adroddiad i'r pwyllgor craffu perthnasol fel rhan o'r adroddiadau rheoli perfformiad arferol. Hefyd, byddai pob Amcan Llesiant yn cynnwys dolen at y cynlluniau gweithredu manwl.

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â sut mae'r sector preifat yn bwydo i amcanion llesiant y Cyngor, dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi) fod

perchenogion busnesau wedi cael cyfle i fwydo i mewn fel rhan o'r ymgynghoriad cyffredinol.

Dywedwyd bod Amcanion Llesiant 2017/18 Cyngor Sir Caerfyrddin yn ddogfen glir a hawdd ei darllen, a mynegwyd diolch i'r swyddogion hynny a oedd yn gyfrifol am ei datblygu.

Yn amodol ar gynnwys ei sylwadau a'i awgrymiadau ychwanegol, **PENDERFYNODD** y Cyd-bwyllgor dderbyn yr adroddiad a'i gyfeirio i'r Bwrdd Gweithredol i'w ystyried ganddo.

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**